Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Red Balwn Coch**

**Circle Way East**
**Llanedeyrn**
**Caerdydd**
**CF23 9PZ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

10/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Red Balwn Coch

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Red Balloon Day Nursery Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 51 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 11 Ebrill 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan y plant gydberthnasau da â'i gilydd ac â'r staff. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn mynegi mwynhad yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu. Maent yn datblygu sgiliau annibyniaeth addas.

Mae'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ac yn eu dilyn, gan sicrhau llesiant y plant. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant ac yn dangos dealltwriaeth ohonynt a pharch tuag atynt. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu gweithgareddau ystyrlon a diddorol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu adnoddau a chyfleusterau da i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r safle yn ddiogel, ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n addas. Mae asesiadau risg a rhestrau gwirio dyddiol ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig i wneud gwelliannau ac mae ganddynt weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith a chaiff cofnodion eu cadw. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn dda iawn.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae’r plant yn hapus iawn ac wedi setlo yn y lleoliad. Maent yn ymdopi â bod ar wahân i'w rhieni neu ofalwyr yn dda, ac yn cyrraedd y lleoliad â gwên ar eu hwynebau. Maent yn adnabod y staff yn dda ac yn barod i fynd atynt i gael cyfarwyddyd neu gysur. Mae gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae ganddynt ymdeimlad o falchder. Er enghraifft, roeddent yn gwenu wrth gael eu canmol gan y staff am gymryd eu tro wrth chwarae gêm.

Mae'r plant yn gwneud rhai penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd y maent am dreulio eu hamser yn y lleoliad. Yn y prif ystafelloedd, maent yn gwybod pa adnoddau sydd ar gael iddynt a ble y gallant chwarae. Er enghraifft, mae'r plant yn dewis o blith y gweithgareddau sydd ar gael ac yn symud i'r ardal o'u dewis. Maent yn dewis y llyfrau y maent am i'r staff eu darllen iddynt ac yn gwybod y caiff eu dewisiadau eu parchu. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i gyfrannu eu syniadau wrth gynllunio’r gweithgareddau sydd ar gael.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r staff sy'n gyfarwydd iawn iddynt. Maent yn gofyn i'r staff am gymorth neu'n mynd atynt os oes angen sicrwydd arnynt Er enghraifft, gwelsom blentyn iau a oedd wedi blino yn ymestyn ei freichiau i fyny er mwyn cael maldod gan aelod o'r staff. Maent yn setlo'n gyflym yn ystod amser cysgu gan eu bod yn ymddiried yn y staff ac yn eu hadnabod yn dda. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn gadarnhaol ac maent yn meithrin cydberthnasau adeiladol. Er enghraifft, mae'r plant hŷn yn mwynhau amseroedd bwyd cymdeithasol, gan sgwrsio'n hapus â'u ffrindiau a'r staff. Maent yn sgwrsio'n naturiol ac yn trafod eu hoff fwyd a'u bore yn yr ysgol.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu. Maent yn cael hwyl wrth iddynt chwarae gêm Lotto mewn grŵp mawr. Maent yn cymryd eu tro ac yn awyddus i ddathlu pan fyddan nhw neu eu ffrindiau yn paru'r lluniau cywir. Mae'r plant yn chwilfrydig ac yn awyddus i drafod yr hyn y maent yn ei wneud â'r oedolion. Er enghraifft, roedd rhai o'r plant am ddangos eu gwaith celf ac roeddent yn sgwrsio'n hapus amdano.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn arllwys eu diodydd eu hunain yn ystod amseroedd bwyd ac yn gallu cael gafael ar ddŵr yfed fel y mynnont drwy'r dydd. Mae'r plant yn defnyddio'r cyfleusterau toiled dan oruchwyliaeth, lle maent yn defnyddio'r toiledau ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol. Maent yn helpu i dacluso ar ôl chwarae ac amseroedd bwyd. Maent yn symud yn hyderus o amgylch yr ardaloedd dysgu ac yn defnyddio adnoddau i gefnogi eu diddordebau.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid da ac yn annog ac yn cefnogi'r plant i olchi eu dwylo cyn bwyta, gan helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Mae'r staff yn cydymffurfio â'r polisi newid cewynnau drwy ddefnyddio dillad amddiffynnol priodol a diheintio'r ardaloedd rhwng newid pob cewyn. Maent yn hyrwyddo bwyta'n iach yn ystod amseroedd byrbryd a bwyd ac yn darparu ffrwythau a llysiau ffres. Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â gweithdrefnau diogelu, a gwnaethant ymateb yn dda i'r senarios a drafodwyd yn ystod yr arolygiad. Maent yn dilyn polisïau'r lleoliad ar gyfer cofnodi digwyddiadau, damweiniau a digwyddiadau o bwys, ac yn sicrhau bod y rhieni'n cael gwybod amdanynt. Mae'r staff yn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio y tu hwnt i gyrraedd y plant. Yn ystod yr arolygiad, dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod y broses storio meddyginiaeth yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau bod y polisi meddyginiaeth yn cael ei ddilyn yn llawn. Mae'r staff yn cadw cofnodion o gydsyniad a meddyginiaeth a roddwyd, ac mae'r staff a'r rhieni yn llofnodi'r cofnodion hyn.

Mae'r staff yn atal ymddygiad digroeso yn fedrus pan fo angen, gan ddefnyddio rhyngweithiadau cadarnhaol a chefnogol. Maent yn atgoffa'r plant ac yn eu canmol, gan annog ymddygiad da ac annibyniaeth. Mae dull gweithredu'r rhan fwyaf o'r staff yn gyson, ac maent yn dangos parch tuag at ddewisiadau'r plant. Er enghraifft, maent yn defnyddio cwestiynau fel, "*would you like to come with me?"* a *"Shall we sit here to look at it?"*

Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn ymatebol, ac maent yn rhoi sylw i ddysgu a datblygiad y plant. Mae'r mwyafrif o'r staff yn cyflwyno'r Gymraeg i'r grwpiau o blant hŷn, ond gan gynnig y cyfieithiad Saesneg pan fo angen, er mwyn diwallu anghenion y plant. Mae aelodau eraill o'r staff yn defnyddio Cymraeg achlysurol, fel "*da iawn*" a "*diolch*" er mwyn annog y plant i ddefnyddio eu Cymraeg achlysurol. Mae'r staff wedi cyflwyno dull newydd o gynllunio yn ddiweddar, ac yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau. Fodd bynnag, nid yw'r broses gynllunio newydd wedi cael ei hymgorffori eto. Defnyddir system gweithwyr allweddol. Mae'r gweithwyr allweddol yn arsylwi ar y plant, yn asesu eu cynnydd unigol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r camau nesaf ar gyfer y plant. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gynlluniau ar gyfer hyfforddiant pellach i gefnogi'r staff fel rhan o'r broses hon. Mae'r staff yn adnabod y plant ac yn deall eu hanghenion unigol yn dda, ac maent yn hyrwyddo dysgu'r plant wrth iddynt chwarae. Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod y plant yn cael y profiadau gorau, ac mae'r plant ag anghenion ychwanegol yn cael eu cefnogi'n dda.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae ymwelwyr yn cyrraedd y lleoliad drwy'r brif fynedfa, a chaiff cofnod o ymwelwyr ei gadw. Mae'n ofynnol i'r staff lofnodi wrth gyrraedd a gadael yr adeilad hefyd. Mae'r staff yn sicrhau bod deunyddiau glanhau yn cael eu storio'n ddiogel allan o gyrraedd y plant. Mae asesiadau risg ar waith, ac mae'r rhain yn llywio'r rhestrau gwirio dyddiol. Mae'r staff yn cwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol er mwyn sicrhau bod peryglon yn cael eu nodi a bod risgiau i'r plant yn cael eu dileu cymaint â phosibl. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw a bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal. Yn ystod yr arolygiad, nododd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fod angen gwerthuso'r broses o adolygu'r dogfennau asesu risg mewn modd amserol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu ymarferion tân. Cofnodir amseroedd a dyddiadau'r ymarferion hyn, a chânt eu gwerthuso.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnig cyfleusterau da i'r plant gael gofal. Mae nifer addas o doiledau i blant a chyfleusterau newid cewynnau i ddiwallu anghenion y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae'r rhain yn sicrhau preifatrwydd ac urddas i'r plant ac yn eu helpu i fod yn annibynnol. Mae'r staff yn trefnu'r ardal dan do yn briodol i gynnwys ardaloedd chwarae a dysgu sy'n hyrwyddo dychymyg a datblygiad y plant. Mae'r plant yn symud yn effeithiol o un gweithgaredd i'r llall yn eu hystafelloedd unigol. Mae'r ardal awyr agored hefyd yn cynnig adnoddau i ddatblygu sgiliau'r plant, yn enwedig eu sgiliau corfforol. Mae'n cynnwys ardaloedd dringo ac archwilio, ac adnoddau fel beiciau a sgwteri, yn ogystal ag ardal wedi'i chysgodi fe bod modd dysgu a chwarae ym mhob tywydd. Fodd bynnag, nid yw'r ardal hon yn cael ei defnyddio'n gyson i'w llawn botensial fel estyniad i'r ardal ddysgu dan do i feithrin sgiliau'r plant ymhellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi gwybodaeth am y lleoliad i'r rhieni ac ymwelwyr. Mae gwybodaeth amrywiol yn cynnwys manylion y staff, polisïau a chylchlythyrau yn cael ei harddangos wrth brif fynedfa'r adeilad. Mae'r staff yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar ac yn ddeniadol a bod gwaith y plant yn cael ei arddangos. O ganlyniad, mae'r plant yn ymfalchïo yn eu gwaith ac mae ganddynt ymdeimlad o berthyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau ar gael yn yr amgylchedd chwarae. Mae'r staff yn sicrhau bod cynllun yr ardal a'r ffordd y caiff yr adnoddau eu storio yn galluogi'r plant i archwilio a chael gafael ar y mwyafrif o'r cyfarpar, sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn darparu cyfarpar ac adnoddau sy’n briodol ar gyfer oedran a chamau datblygu'r plant. Mae datblygiad personol a chymdeithasol y plant hefyd yn cael ei wella drwy straeon, llyfrau ac adnoddau â thema.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn dda. Mae datganiad o ddiben ar waith sy'n rhoi gwybodaeth am y ffordd y caiff y lleoliad ei redeg. Fodd bynnag, nid yw'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd yn llawn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith a bod cofnodion yn cael eu cadw. Mae'r rhain yn cynnwys cofnodion ar gyfer y plant gyda chontractau, caniatadau a ffurflenni gwybodaeth sy'n rhoi gwybodaeth i'r lleoliad am anghenion unigol y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i wella. Maent wedi croesawu adborth o'r arolygiad ac yn gweithredu ar faterion y tynnir eu sylw atynt. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau'r adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal a'r adroddiad ar yr arolygiad hwnnw. Maent yn gofyn am safbwyntiau'r staff, y rhieni a'r plant am y lleoliad. Maent yn ystyried y safbwyntiau hyn ac yn nodi cryfderau a blaenoriaethau. Er enghraifft, mae'r dogfennau a'r polisïau allweddol wrthi'n cael eu cyfieithu i'r Gymraeg, a thrwy hynny, mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod digon o staff cymwysedig i ofalu am y plant a bod y gymhareb rhwng yr oedolion a'r plant yn cael ei chynnal. Maent yn sicrhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol a'u bod yn meddu ar dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cyflwynodd yr Unigolyn Cyfrifol ei dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ystod yr arolygiad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn myfyrio ar y broses o redeg y lleoliad ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r staff at y broses hon. Maent yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i'r staff fynegi eu barn yn anffurfiol, yn ogystal ag yn ystod cyfarfodydd staff a sesiynau goruchwylio un-i-un. Dywedodd y staff wrthym fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hawdd mynd atynt a bod ganddynt bolisi drws agored. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli perfformiad y staff bob amser yn benodol i rolau a chyfrifoldebau unigol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y lleoliad. Maent yn darparu hyfforddiant i bob aelod o'r staff ar gefnogi plant a theuluoedd.

Mae'r partneriaethau yn gadarn. Caiff y rhieni eu croesawu i'r lleoliad wrth gasglu eu plant. Mae'r staff yn sgwrsio â'r rhieni am ddiwrnod eu plentyn ac yn cofnodi gwybodaeth mewn dyddiadur dyddiol ar gyfer y plant iau sy'n mynychu'r lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu gwybodaeth gyffredinol drwy gylchlythyrau rheolaidd. Mae ganddynt bolisi cwynion a gweithdrefn gwyno ar waith, ond nid oes unrhyw gwynion ffurfiol wedi dod i law. Mae adborth y rhieni am y lleoliad yn gadarnhaol iawn, gyda nifer ohonynt yn canmol y staff hyfryd ac yn nodi pa mor hapus y mae eu plant wrth fynychu'r lleoliad.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 22 – Yr amgylchedd | Cynllunio a chynnig cyfleoedd dyddiol i bob plentyn ddatblygu ei sgiliau yn yr ardal awyr agored. |
| Safon 1 - Gwybodaeth | Sicrhau bod y datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn y lleoliad ar hyn o bryd yn gywir. |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Sicrhau y caiff rolau a chyfrifoldebau eu hadolygu'n llawn ac y caiff targedau ystyrlon eu nodi ar gyfer datblygiad unigol. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Darparu hyfforddiant pellach i'r staff er mwyn sicrhau y caiff y system gynllunio newydd ei hymgorffori. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/06/2024